Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Parentkind
Bringing together home & school

Beth allwch ei disgwyl gan addysgwyr

Canllaw i rieni a gwarcheidwaid

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Gwybodaeth am CGA 4
Beth yw cofrestru? 6
Beth yw'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol? 7
Codi pryderon gyda CGA 8
Cysylltu â ni 9

Cyflwyniad

Pan fyddwch yn anfon eich plant i'r ysgol neu'r coleg, rydych chi'n ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno i'w cadw'n ddiogel.

Yng Nghymru, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithio fel athro neu weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, neu leoliad addysg bellach, gweithiwr ieuenctid/gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig, neu ymarferwr dysgu seiliedig ar waith, gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Ar hyn o bryd, mae hynny'n cynnwys dros 85,000 o unigolion.

Mae disgwyl i bawb sy'n cofrestru ddilyn Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA.

Nod y gofynion hyn yw helpu amddiffyn dysgwyr a phobl ifanc, yn ogystal â chi fel rhieni a gwarcheidwaid hefyd.

Diben y ddogfen hon yw dweud wrthych am y gofynion ar ymarferwr cofrestredig ac esbonio beth yw eich hawliau fel rhiant/gwarcheidwad os bydd cofrestrai'n torri'r Cod.

Hayden Llewellyn
Prif Weithredwr,
Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Jason Elsom
Prif Weithredwr,
Parentkind

Gwybodaeth am CGA

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ein swyddogaeth graidd yw rheoleiddio er budd y cyhoedd. I wneud hyn, rydym yn gyntaf yn cynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg sy'n gymwys i weithio mewn ysgolion, addysg bellach, gwaith ieuenctid a dysgu seiliedig ar waith. Yn ail, rydym yn cyhoeddi Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n cyflwyno'r safonau a ddisgwylir gan y rhai sydd wedi cofrestru. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu droseddau perthnasol, ac yn clywed gwrandawiadau arnynt.

Rydym yn gwneud hyn i amddiffyn dysgwyr, pobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd.

Yn ogystal â'n gwaith rheoleiddio, rydym hefyd yn:

- cynorthwyo cofrestreion i allu cyflwyno'r safonau proffesiynol uchaf trwy ddarparu gwybodaeth, adnoddau a gwasanaethau defnyddiol a luniwyd i gynnig arweiniad a chyfarwyddyd
- ceisio cyfleoedd i lywio a dylanwadu ar bolisi addysg yng Nghymru
- hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg yng Nghymru trwy wefan Addysgwyr Cymru a gwasanaeth eiriolaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ein rôl, ewch i wefan CGA.

Gwybodaeth am Parentkind

Parentkind
Bringing together home & school

Mae Parentkind, sy'n elusen ffederal genedlaethol, yn rhoi llais ym maes addysg i bobl â rôl magu plant. Rydym yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn cynrychioli safbwyntiau rhieni am ddysgu eu plant gerbron llywodraethau ac asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dywed tystiolaeth wrthym fod pob plentyn ym mhob ysgol a chymdeithas yn gyfan gwbl yn elwa pan fydd rhieni'n cymryd rhan mewn addysg.

Mae rhwydwaith Parentkind o 12,500 o Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon yn ysgogi dros 100,000 o wirfoddolwyr i godi dros £120 miliwn yn flynyddol i ariannu offer a gwasanaethau hanfodol i'n hysgolion. Mae'r ymdrech ragorol hon yn codi swm tebyg i brif elusennau'r DU.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Parentkind.

Beth yw cofrestru?

Mae cofrestru gyda CGA yn golygu bod gan y bobl sy'n gweithio gyda'ch plant y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, a'n bod ni wedi asesu eu haddasrwydd i gofrestru.

Gallwch wirio bod y staff sy'n gweithio gyda'ch plant wedi cofrestru gan ddefnyddio'ch mynediad cyhoeddus i'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg. Yno, gallwch hefyd weld unrhyw unigolion sydd â gorchmynion disgyblu ar hyn o bryd.

Beth yw'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol?

Ar ôl cofrestru gyda ni, mae cofrestreion yn ymrwymo i ddilyn ein Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau y disgwylir gan gofrestreion, yn y gwaith a'r tu hwnt. Mae'r Cod hefyd i ddysgwyr, pobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd i ddeall pa ymddygiadau y gallant eu disgwyl gan berson cofrestredig.

Mae codau ymddygiad ac ymarfer yn gyffredin ar draws proffesiynau, gan gynnwys nyrsys, meddygon, deintyddion a chyfreithwyr.

Wrth ddilyn Cod CGA, mae cofrestreion yn ymrwymo i gynnal pum egwyddor allweddol:

1. Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol
2. Uniondeb Proffesiynol
3. Gweithio Cydweithredol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol
5. Dysgu Proffesiynol

Rydym yn cynnig llawer o gymorth, sy'n helpu pobl i ddeall a defnyddio'r Cod. Mae hyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i grwpiau, am ddim, a chanllawiau arfer da sy'n cynnig awgrymiadau a syniadau defnyddiol. Os byddai trefnu sesiwn i'ch grŵp neu sefydliad o ddiddordeb i chi, cysylltwch â gwybodaeth@cga.cymru.

Gallwch ddarllen Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA trwy fynd i www.cga.cymru/CodCGA.

Codi pryderon gyda CGA

Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau a gawn yn dod oddi wrth gyflogwyr ac maent yn cynnwys honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol.

Fel rhiant/gwarcheidwad, gallwch hefyd godi pryder â ni am un o'n cofrestreion os ydych chi o'r farn eu bod wedi torri'r Cod.

Os byddwch chi'n penderfynu codi pryder, rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn darllen ein canllawiau gyntaf gan y bydd angen i chi wneud rhai pethau cyn cysylltu â ni. Mae'r canllawiau ar gael trwy fynd i www.cga.cymru/bethywPIY.

Cysylltu â ni

Mae'r Cod, ynghyd â chyfres o ganllawiau arfer da, a luniwyd i helpu i weithredu'r Cod, ar gael ar wefan CGA, www.cga.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Ffôn: 029 2046 0099

E-bost: priodoldebiymarfer@cga.cymru.

Cedwir pob hawl © Cyngor y Gweithlu Addysg 2023